## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn the Council Chamber, County Hall, Ruthin LL15 1YN, Dydd Mawrth, 11 Medi 2012 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Allan Pennington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB), Pennaeth Tai a Datblygiad Cymunedol (PMc), Rheolwr Ymrwymiad Cymunedol (DD) a/ac Gweinyddwr Pwllgor (SLW)

BCUHB Cynrychiolwyr – Geoff Lang, Dr. Chris Stockport, Grace Lewis Parry a/ac Sally Baxter.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Peter Duffy, Margaret McCarroll, Barry Mellor a/ac Bill Tasker

### 2 DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain Jones, Janet Ann Davies a Geraint Lloyd-Williams fod ganddyn nhw ddiddordeb personol yn eitem agenda 6 – Adolygiadau'r GIG.
Datganodd y Cynghorydd Win Mullen-James bod ganddi ddiddordeb personol a rhagfarnol yn eitem agenda 10 – Pwyllgor Safonau – Telerau Swyddi Aelodau Annibynnol.

### 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYN NHW GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y digwyddiadau sifig yr oedd hi a'r Is-Gadeirydd wedi ymgymryd â hwy ar ran y Cyngor yn y cyfnod 10/07/2012 – 10/09/2012 (roedd y dyddiadur wedi'i ddosbarthu o flaen llaw).

Roedd y noson *Pimms and Pictures* a gynhaliwyd ar 27/07/2012 wedi codi £1500 i Hosbis St. Kentigerns.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2012.

Cywirdeb:-
Eitem Rhif 6, Tudalen 9 – Gwnaeth y Cynghorydd Alice Jones gais am newid yn y darn "Diweddariad ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych". Roedd y Cynghorydd Jones wedi dweud bod y Cynghorydd Joan Butterfield wedi cyfeirio at lythyr a ddosbarthwyd i Gynghorwyr gan Gyngor Tref Bodelwyddan, lle teimlai'r Cynghorydd Butterfield bod awgrym bod Cyngor Sir Ddinbych yn euog o ryw "ddrwgweithredu". Nid oedd y Cynghorydd Butterfield wedi cyfeirio at "brosesau anghywir" fel y cofnodwyd yn y cofnodion. Eglurodd y Cynghorydd Jones ei bod mewn ymateb i'r Cynghorydd Butterfield, wedi nodi nad oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd i'r llythyr ac felly nad oedd wedi nodi bod y Cyngor wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Roedd hyn o fewn y cyd-destun o gynnig sylwadau ar y llythyr. Nododd y Cynghorydd Jones nad oedd yn cyflwyno ei safbwyntiau neu farn bersonol ac nad oedd y dehongliad o "ddrwgweithredu" fel "prosesau anghywir" yn y cofnodion yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd. Nododd y Cynghorydd Jones hefyd petai'r Cynghorydd Butterfield wedi sôn am "brosesau anghywir" y byddai wedi'i sbarduno i ymateb yn wahanol.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones, ar y sail bod ei sylwadau wedi'u camddehongli, bod y Cyngor yn derbyn ei fersiwn a'i heglurhad ac yn cywiro'r anghywirdeb trwy newid y cofnodion fel ag sy'n briodol.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2012 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 6 ADOLYGIADAU GWASANAETH GIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (CD:DWP) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn gofyn am fewnbwn y Cyngor i'r ymateb drafft i broses ymgynghori BIP Betsi Cadwaladr.

Rhoddodd CD:DWP gyflwyniad byr i'r cynrychiolwyr o BIP Betsi Cadwaladr (BCUHB) gan eu croesawu i'r cyfarfod. Roedd y cyfnod ymgynghori i redeg am 10 wythnos o 20 Awst, 2012 hyd 28 Hydref, 2012.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, at y ffaith bod newidiadau i'r Gwasanaeth Iechyd yn anochel ond bod y anodd deall y rhesymeg wrth wraidd rhai mesurau. Hysbysodd y Cynghorydd Feeley gynrychiolwyr BCUHB o Weithgor y Pwyllgor Craffu Partneriaeth a oedd wedi'i sefydlu ac oedd, gyda swyddogion, wedi bod yn gweithio drwy'r mesurau. Roedd y gweithgor i gwrdd ar ddiwedd Medi i gwblhau'r ymateb a fyddai'n dod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 9 Hydref, 2012.

Cyflwynodd Geoff Lang, BCUHB, "Healthcare in North Wales is changing". Roedd copïau o'r cyflwyniad ar gael i bawb yn mynychu'r cyfarfod ynghyd â'r ddogfen ymgynghori er gwybodaeth.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnwyd cwestiynau a rag baratowyd i gynrychiolwyr BCUHB. Roedd holl aelodau wedi derbyn copi o'r daflen gwestiynau ac roedd y CD:DWP hefyd wedi anfon copi o'r daflen gwestiynau o flaen llaw i gynrychiolwyr BCUHB.

**Cwestiwn 1** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Blakeley. Problemau gyda chiwiau Ambiwlans tu allan Glan Clwyd, gwelyau wedi'u blocio, llawdriniaethau'n cael eu canslo, staff yn cael eu hanfon adref a thargedau amserau aros yn cael eu methu. Sut fydd y newidiadau arfaethedig yn datrys y problemau hyn?
Ymatebodd Geoff Lang bod gwaith ar y gweill mewn perthynas â Damweiniau ac Achosion Brys o ran recriwtio staff. Roedd Ysbyty Glan Clwyd i gael Uned Ddamweiniau ac Achosion Brys newydd. Roedd BCUHB yn gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans i leddfu'r broblem o giwiau ambiwlans. Byddai gofal gwell yn y cartref yn cyfrannu at leddfu'r pwysau ar welyau gan y byddai modd osgoi'r angen i anfon rhai cleifion i'r ysbyty; byddai hynny hefyd yn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans.

Roedd gwaith ar y gweill gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru i osgoi defnyddio ambiwlans mewn achosion nad oeddynt yn rhai brys. Ar hyn o bryd, nid oes opsiynau eraill heblaw am fynd â phobl i'r uned achosion brys. Yn dilyn adolygu'r gwasanaethau, yn y dyfodol, byddai modd mynd ag achosion nad oeddynt yn rhai brys i uned mân anafiadau.

**Cwestiwn 2** - cyflwynwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill. Sut mae BCUHB yn bwriadu rheoli a chyflawni'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen i roi'r cynlluniau hyn ar waith o gofio'r diffyg cyllidol sydd yno eisoes (oddeutu £65m)?
Ymatebodd Geoff Lang bod pwysau cyffredinol ar gyllidebau. Roedd BCUHB wedi bod yn asesu meysydd i arbed adnoddau, ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaethau rheng flaen, a chaffael ayyb. Roedd y cynllun hwn i newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'n bwysig sylweddoli y gallai'r sefyllfa ariannol waethygu yn hytrach na gwella pe na fyddai BCUHB yn gwneud y newidiadau hyn. Nid dyma'r ateb i holl faterion ariannol gofal iechyd.

**Cwestiwn 3** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James. Pa mor hyderus yw BCU o sicrhau'r buddsoddiad cyfalaf a refeniw angenrheidiol i agor y cyfleuster cymunedol newydd i wasanaethu'r Rhyl a Phrestatyn a'r cyfleuster newydd yn Llangollen? A dderbyniwyd sicrwydd bod yr achosion busnes yn gadarn? Pa mor debygol ydyn nhw o fod wedi'u cwblhau a'u hagor erbyn 2015? Pa sicrwydd a

roddir y bydd gwasanaethau presennol yn dal i weithredu hyd nes y bydd y cyfleusterau a'r gwasanaethau newydd yn agor?
Ymatebodd Geoff Lang na fyddai arian yn cael ei ryddhau hyd nes bod ymgynghori terfynol wedi digwydd. Roedd BCUHB yn hyderus y byddai arian ar gael. Byddai rhai newidiadau yn gallu digwydd yn sydyn, ond roedd rhai yn fwy cysylltiedig â chyfleusterau a fyddai'n dibynnu ar y cynllun terfynol gaiff ei gynhyrchu yn Rhagfyr. Ni fyddai unrhyw fylchau mewn gwasanaethau. Er enghraifft, cau Llangollen, byddai gofal yn y cartref ar waith cyn y cau. Rhoddodd gynrychiolwyr BCUHB sicrwydd y byddai cyfleusterau newydd ar agor yn 2015.

**Cwestiwn 4** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland. Pam bod Inffyrmari Dinbych wedi cael ei ddewis fel canolbwynt ysbytai yn hytrach na Rhuthun, gan ein bod yn teimlo bod modd hefyd dadlau o blaid Rhuthun?
Ymatebodd Geoff Lang ynghylch Ysbyty Rhuthun ac Inffyrmari Dinbych. Edrychwyd ar faint ac ystod y cyfleusterau ar gael, oriau estynedig a lle'r oedd y gweithgaredd mwyaf, yn ogystal â photensial y safle i ddatblygu dros amser. Ym marn BCUHB, roedd gan Inffyrmari Dinbych well siawns o gynnig y cyfleusterau hyn fel canolbwynt.

**Cwestiwn 5** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Cefyn Williams. Gydag uned mân anafiadau Bala yn cau, yn ogystal â'r cynigion i Ysbyty Cymunedol Llangollen, a ydych yn hyderus y bydd darpariaeth iechyd mân digonol ar gael i drigolion parthau uchaf Dyffryn Dyfrdwy a fydd yn hawdd mynd ato?
Ymatebodd Geoff Lang nad oedd uned mân anafiadau wedi bod yn Bala. Roedd Meddygon Teulu yn darparu gwasanaeth mân anafiadau a byddai hynny'n parhau. Yn nhermau Llangollen, ymgynghorwyd â Meddygon Teulu i holi a fyddent yn darparu gwasanaeth mân anafiadau ond y byddai hynny'n digwydd yn lle uned mân anafiadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Cefyn Williams am ymateb mwy pendant.

Ymatebodd Grace Lewis Parry mai'r cynigion ar hyn o bryd oedd cau Ysbyty Gymunedol Llangollen ac adeiladu cyfleuster newydd. Byddai gwasanaeth mân anafiadau yn cael ei ddarparu gan Feddygon Teulu ac nid oedd unrhyw reswm pam na fyddai'r gwasanaeth hwnnw yn parhau. Byddai'r gwasanaeth mân anafiadau yn cysylltu gydag Ysbyty Maelor Wrecsam.

**Cwestiwn 6** - cyflwynwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans. Deallwn fod y Bwrdd Iechyd yng Ngorffennaf wedi cytuno i gadw ystod o wasanaethau ar y 3 safle ysbytai aciwt (e.e. gwasanaethau mamolaeth, pediatrig, cleifion mewnol, gwasanaethau fasgwlaidd cyffredin, llawdriniaeth gyffredinol gyffredin, trawma a gwasanaethau orthopedig) - ond mynegwyd llawer o amheuaeth ynghylch dichonoldeb hyn yn y tymor hir. Hoffem dderbyn sicrwydd pe bai'r penderfyniad hwn yn cael ei wyrdroi, y byddai ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynghylch newidiadau ac na fyddai Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei israddio. Sut gaiff y penderfyniadau hyn eu cymryd, a sut fydd y cyhoedd yn gwybod beth sy'n digwydd?
Ymatebodd Geoff Lang bod y Bwrdd wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus yng Ngorffennaf ac wedi derbyn adborth. Roedd clinigwyr o'r farn eu bod am gadw gwasanaethau craidd ar dri safle. Byddai'r Bwrdd yn monitro diogelwch yn agos

iawn. Pe byddai'r cynllun tymor hir yn newid, byddai'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach.

**Cwestiwn 7** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Raymond Bartley. Hoffem i rai o'r cynigion ymestyn gwasanaethau i bobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl. Fodd bynnag, rydym yn amau os ydy'r cynlluniau yr ydych wedi'u cyflwyno yn golygu y bydd digon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau iechyd cymunedol i'r bobl hyn a'u gofalwyr. Allwch chi esbonio pam eich bod yn credu y bydd digon?
Ymatebodd Grace Lewis Parry. Yn nhermau bobl hŷn, roedd gwelyau yn aml yn wag ac yn ôl tystiolaeth y clinigwyr, byddai'r galw am welyau yn gostwng pe byddai gwasanaethau yn cael eu darparu yn eu cartrefi eu hunain. Mae clinigwyr a BCUHB fel ei gilydd yn credu y byddai hyn yn darparu mwy o ofal ac yn cyflawni anghenion y boblogaeth.

**Cwestiwn 8** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Bobby Feeley. Rydym yn poeni y byddai'r cynlluniau yn rhoi pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, yn enwedig gan nad yw'n ymddangos fel petai yna unrhyw gynlluniau ariannol clir ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i ni ynghylch hynny?
Ymatebodd y Dr Chris Stockport. Roedd trafodaethau wedi digwydd ynghylch sut i ddelio gyda'r mater o bwysau cynyddol bosibl ar gyllidebau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Dyma wasanaeth a oedd yn edrych yn benodol ar ddarparu gofal yn y cartref yn hytrach nag anfon claf i'r ysbyty neu mewn achosion lle byddai angen i'r claf aros yn hirach yn yr ysbyty. Roedd gwaith gofalus wedi'i gynnal gyda swyddogion mewn Awdurdodau Lleol ynghylch sut y gellid defnyddio adnoddau yn y ffordd gywir. Roedd yn fenter iechyd a'r adran iechyd fyddai'n ymgymryd â'r gwaith. Trwy weithio fel un tîm, byddai modd darparu gwasanaeth gweithiol gwell a mwy effeithlon. Heb amheuaeth, byddai ymyriad iechyd yn cael ei ddarparu ac yn cael ei ariannu gan iechyd. Unwaith bo'r claf gartref, nid yw iechyd yn achosi cymaint o anabledd ag y byddai'n ei wneud mewn ysbyty. Dyma oedd y profiad yn genedlaethol.

**Cwestiwn 9** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Ann Davies. Byddai'r cynigion yn effeithio'n fawr ar ofalwyr a'r gwasanaeth i ofalwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol. A fyddech chi'n ymrwymo at ddatblygu cynllun cynhwysfawr i ofalwyr a fyddai'n dangos sut fyddwch chi'n ariannu mwy o wasanaethau, ac yn enwedig trwy ddarparu gofal seibiant?
Ymatebodd Grace Lewis Parry, roedd bobl yn byw'n hirach ac arnynt eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain, ond heb y gofal a ddarperir gan ofalwyr, byddai'r sector cyhoeddus cyfan yn chwalu. Byddai Mesur Gofalwyr ar gael ym mis Hydref. Mae gofalwyr yn gallu gofidio'n arw pan nad ydynt yn cael cefnogaeth. Byddai cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu i holl ofalwyr.

**Cwestiwn 10** - cyflwynwyd gan y Cynghorydd David Smith. Mae'n anochel y bydd y cynigion yn dibynnu'n helaeth ar gael cludiant da, sef bobl angen ambiwlans ar frys a chleifion a theuluoedd yn teithio'n bellach am welyau ysbyty cymunedol neu wasanaethau arbenigol. Allwch chi ddweud wrthym pa ymgynghoriad sydd wedi digwydd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru? Pa sicrwydd allwch chi roi i ni y byddant yn gallu cyflawni'r sialensau newydd? Cyn i unrhyw

newidiadau ddigwydd, allwch chi warantu y bydd Cynllun Teithio holl gynhwysfawr ac wedi'i ariannu'n briodol, yn cael ei lunio i helpu cleifion a gofalwyr deithio at y gwasanaethau newydd a dychwelyd adref wedyn?
Ymatebodd Sally Baxter. Gan ddechrau gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, mae BCUHB wedi cymryd rhan yn yr holl ffrydiau gwaith. Mae gwaith wedi'i wneud gyda'r Bwrdd wrth ddatblygu system casglu feddygol brys a hefyd canolfan gydgysylltu i wahanol wasanaethau y bydd, o bosibl, eu hangen. Roedd BCUHB yn gweithio gyda darparwyr cludiant cymunedol i archwilio sut y gallent ddarparu cludiant ychwanegol. Cafwyd buddsoddiad enwol o £80,000 ar gyfer cynllun peilot ynghylch cludiant ychwanegol. Roedd BCUHB yn ymwybodol nad oedd pawb â char i'w ddefnyddio, ac felly'n gorfod defnyddio dulliau cludiant eraill. Mae BCUHB am fonitro'r sefyllfa ac roedd wedi cysylltu â'r Rheolwr Cyngor Cymunedol. Pe byddai cynigion yn cael eu derbyn, byddai'n edrych ar newidiadau manwl. Nid oedd cynllun manwl yn ei le ar hyn o bryd gan mai'r broses ymgynghori sy'n digwydd, ond byddai cynllun manwl yn cael ei lunio unwaith bo'r ymgynghori wedi dod i ben.

**Cwestiwn 11** – cyflwynwyd gan y Cynghorydd Alice Jones. Byddai'n well gennym petai gofal dwys i fabanod newydd anedig sâl iawn ar gael yng Ngogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Pam bod Arrowe Park dan ystyriaeth? Beth yw costau cymharol hyn mewn cymhariaeth ag uned yng Ngogledd Cymru? Pa sicrwydd allwch chi ei roi ynghylch darpariaeth i rieni a gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu tu hwnt i Ogledd Cymru? Allwch chi esbonio'n union pa grŵp o fabanod yr ydym yn siarad amdanyn nhw? Pa wasanaethau fyddai'n aros yng Ngogledd Cymru petai Arrowe Park yn cael ei ddewis?
Ymatebodd Grace Lewis Parry. Nid oedd unrhyw broblemau ynghylch safon gwasanaethau a diogelwch. Ymateb cynnig BCUHB yw bod safonau yn golygu bod yn rhaid i BCUHB symud ymlaen. Byddai'n costio oddeutu £1miliwn i ddod â'r uned newydd-anedig i fyny i safon genedlaethol. Byddai'n costio £1miliwn yn llai i Arrowe Park. Grace Lewis Parry i ddarparu papurau i Aelodau er gwybodaeth.
Roedd y mater o'r iaith Gymraeg wedi'i nodi yn y cytundeb.
Gan fod babanod ifanc iawn angen derbyn gofal am sawl wythnos, roedd yr adborth a dderbyniwyd ynghylch yr uned deuluol a threfniadau mynediad yn Arrowe Park yn ardderchog.

**Cwestiwn 12** - cyflwynwyd gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler. A fydd y newidiadau iechyd hyn yn gwella gwasanaethau ac yn gwarantu urddas a gofal i'r sawl sydd arnynt angen gofal lliniarol a'r sawl sy'n dod i derfyn eu bywydau?
Ymatebodd Dr Chris Stockport. Mae'r mwyafrif o bobl yn marw mewn ysbyty ond byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl farw yn eu cartref eu hunain. Y ffaith amdani yw bod gwasanaethau heb eu ffurfweddu'n gywir, ac o ganlyniad, roedd bobl a oedd ar fin marw yn mynd i amgylchedd a oedd yn feddygol iawn, sef amgylchedd lle nad oedd modd iddynt gael y farwolaeth naturiol yr oeddent yn ei dymuno. Roedd y cynllun gofal gwell yn gysyniad a ddefnyddiwyd mewn gwledydd eraill; roedd yn gadael i bobl weithio allan beth oedd yn werthoedd pwysig iawn, a sut allai BCUHB ddelio gyda hyn. Roedd cynllun peilot i gychwyn yng Ngogledd Sir Ddinbych ymhen ychydig o wythnosau ac yn y cynllun, y cartref fyddai'r man dymunol ac nid ysbyty.

Ar y pwynt hwn, cyhoeddodd y Cadeirydd bod amser i 4 cwestiwn pellach.

Gofynnodd y Cynghorydd Stuart Davies i gynrychiolwyr BCU a oedd uned mân anafiadau yn mynd i fod yn Llangollen.
Ymatebodd Geoff Lang. Ni fyddai uned mân anafiadau yn Llangollen ond byddai meddygon teulu yn darparu gwasanaeth mân anafiadau.

Mynegodd y Cynghorydd Arwel Roberts bryder ynghylch Meddygfa Rhuddlan a'r ffaith ei bod yn ymddangos fel nad oedd arian digonol i gynnal y feddygfa.
Ymatebodd Grace Lewis Parry nad oedd ganddi unrhyw fanylion ynghylch Meddygfa Rhuddlan ar y pryd.

Cododd y Cynghorydd Rhys Hughes y cwestiwn ynghylch adrannau allgleifion a gofal dydd Ysbyty Gymunedol Llangollen. A fyddai'r adrannau hyn yn cael eu hadleoli i'r ganolfan adnoddau gofal sylfaenol estynedig newydd? A fydden nhw'n parhau ar y safle presennol hyd nes byddai'r cyfleuster newydd wedi'i adeiladu?
Cadarnhaodd y CD:DWP y byddai'r adrannau allgleifion a gofal dydd yn cael eu trosglwyddo i'r cyfleuster newydd.
Nododd Grace Lewis Parry bod darparu gwasanaethau yn bwysig. Ni allai BCUHB warantu y byddai'r ysbyty yn aros ar agor, ond byddai ystod o wasanaethau yn cael eu darparu yn yr ardal leol.

Cododd Aelodau gwestiynau pellach, ac ymatebodd cynrychiolwyr BCU fel a ganlyn:

Bydd gwelyau Glan Traeth yn cael eu darparu o fewn Ysbyty Glan Clwyd hyd nes y byddai'r cyfleuster newydd yn cael ei adeiladu ar safle Ysbyty Frenhinol Alexandra. Bydd Lawnside yn cael ei adleoli fel canolfan allgymorth. Y Ddeoniaeth sy'n gosod safonau ynghylch nifer y Meddygon sy'n cymryd llefydd hyfforddi. Byddai unedau babanod gofal arbennig a gofal dwys yn cael eu rhedeg gan Bediatryddon ac roedd y trefniadau yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Roedd BCUHB yn ymwybodol o bryderon ynghylch pwysau ychwanegol ar feddygon teulu oherwydd gofal gwell yn y cartref. Roedd y Pwyllgor Meddygol yn edrych ar rifau meddygon teulu ar hyn o bryd. Un mecanwaith yw ariannu yn arwain at gapasiti mwy.

Byddai'r gwrthwyneb i golli swyddi yn digwydd gan fod BCUHB yn trosglwyddo arian o welyau ac adeiladau i staff.

Roedd holiaduron ymgynghori ar gael i holl Aelodau a oedd yn awyddus i'w cwblhau fel personau unigol.

Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i'r Cydweithwyr Iechyd am fynychu cyfarfod y Cyngor.

***Penderfynwyd*** *– yn amodol ar yr uchod, bod y Cyngor yn cwblhau'r ymateb drafft i BCUHB ar y broses ymgynghori a bod yr ymateb terfynol yn dod gerbron y Cyngor Llawn yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2012.*

**Cafwyd egwyl am 11.15 y.b.**

**Gwnaeth y cyfarfod ail-ymgynnull am 11.35 y.b.**

## CYFLWYNIADAU

Cyflwynodd y Cadeirydd dystysgrif i'r Prif Weithredwr am gyflawni Tystysgrif Mynediad Cymraeg Ail Iaith CBAC. Roedd wedi bod yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg Llanllawen wythnosol yn Ninbych ers Chwefror 2010 a bellach wedi cyflawni'r cymhwyster ym Mehefin eleni. Byddai nawr yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

Dangosodd y Cadeirydd Raymond Bartley dlws i Aelodau a oedd wedi'i gyflwyno'n wreiddiol i'r Eisteddfod gan Garcharorion Rhyfel Eidalaidd i ddiolch i bobl Cymru am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu carchariad.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Cymunedol newydd i'w chyfarfod Cyngor Sir cyntaf.

## 7 DATGANIAD POLISI TÂL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad (LM:M&P) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i gael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Datganiad Polisi Tâl er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

***Penderfynwyd*** *- bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl.*

## 8 CYFAMOD CYMUNEDOL GYDA'R LLUOEDD ARFOG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau (LM:C&C) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i gael cymeradwyaeth y Cyngor i'r cyfamod a chytuno y dylid gwneud trefniadau ar gyfer lansio'r cyfamod yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr o'r Lluoedd Arfog a chynrychiolwyr perthnasol o'r gymuned yn bresennol.

Esboniodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol (CEM) y cyfamod i'r Pwyllgor. Nid oedd y cyngor am wahaniaethu yn erbyn y gwasanaethau arfog ac nid oedd y cyngor ychwaith yn rhoi unrhyw flaenoriaeth iddynt o ran gwasanaethau. Byddai modd ystyried yr awgrym o gynnig taliadau gostyngol ar gyfer defnyddio gwasanaethau hamdden.

Gofynnwyd y cwestiwn sut oedd gwasanaethau cymdeithasol yn delio gyda dynion a gwragedd a oedd yn dioddef o Anhwylder Straen wedi Trawma.
Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio bod gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda BCU ond nad oedd unrhyw ddarpariaeth benodol i bobl sy'n dioddef o'r anhwylder. Roedd meddygon teulu yn gyfrifol am atgyfeirio cleifion.

Nododd y Prif Weithredwr bod hwn yn fater difrifol. Gallai Aelodau dderbyn dadleuon o grwpiau eraill pe byddai teimlad bod y Cyngor yn gwahaniaethu'n bositif ac yn ffafrio cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Rhaid bod yn ofalus i beidio â chyfleu neges bod rhai pobl yn bwysicach nag eraill. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid i Sir Ddinbych wneud penderfyniadau i sicrhau nad oedd cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn dioddef unrhyw anfantais, ond ni fyddai modd gwahaniaethu o'u plaid mewn unrhyw fodd. Argymhellodd y Prif Weithredwr na ddylai'r Cyngor wneud unrhyw benderfyniadau heddiw ynghylch materion polisi penodol.

Cafwyd cais am adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gan fod natur y drafodaeth ynghylch materion polisi penodol yn gofyn am ystyriaeth bellach.

***Penderfynwyd*** *– bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cyfamod ac yn cytuno y dylid gwneud trefniadau ar gyfer lansio'r cyfamod yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr o'r Lluoedd Arfog a chynrychiolwyr perthnasol o'r gymuned yn bresennol.*

## 9 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans (Arweinydd) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i gael cymeradwyaeth y Cyngor i Brosiect Gwella Tai Gorllewin Y Rhyl ac i ddirprwyo pwerau i'r Bwrdd Prosiect.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Hugh Evans bod y prosiect yn bartneriaeth weithredol yn cynnwys Pennaf/Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru oedd yn arwain y prosiect ac yn darparu'r cyllid.

Mae'r prosiect wedi'i rannu'n flociau:-

Bloc 1 – adeiladau i'w dymchwel i greu'r man gwyrdd.
Bloc 2 – roedd y cyngor wedi caffael pob un, heblaw am un neu ddau, o'r adeiladau a fyddai'n cael eu hadnewyddu gan Pennaf/Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a'u marchnata fel eiddo "Cymorth Prynu", lle y byddai preswylwyr yn berchen ar fwyafrif yr ecwiti yn y cartref.
Bloc 3 – 6 fel ag yn yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth bellach, ac ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn:-

- Roedd rhaglenni sector cyhoeddus a chynlluniau grant wedi methu ag adfywio'r ardal, ac mae dwy o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn parhau i fod yng ngorllewin Y Rhyl. Byddai'r prosiect yn cyflawni cydbwysedd o ran tai gan fod gormod o breswylwyr un llofft yn yr ardal. Roedd y prosiect yn gweithio tuag at sicrhau gwell cydbwysedd trwy greu man gwyrdd, ailfodelu tai a'u gwneud yn ddeniadol i deuluoedd. Byddai ymdrin â'r problemau hir sefydlog hefyd yn cynorthwyo at greu argraff fwy positif o'r dref yn ei chyfanrwydd, ac felly'n cael buddion adfywio mwy pellgyrhaeddol.
- Roedd llawer o'r adeiladau wedi'u caffael fel rhan o Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru ac roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i barhau â'r rhaglen gaffael. Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio caffael adeiladau trwy

gytundeb, ond yn rhagweld y byddai'n rhaid defnyddio pwerau prynu gorfodol i gaffael lleiafrif o'r adeiladau sy'n angenrheidiol i'r prosiect.

- Byddai Swyddog Adsefydlu yn cael ei benodi, a'i rôl fyddai cynorthwyo trigolion i adnabod ac yna adleoli i gartrefi newydd, naill ai o fewn Sir Ddinbych neu hyd yn oed mewn sir arall. O'r trigolion sydd wedi'u hadleoli, roedd mwyafrif yn dymuno parhau i fyw yn Y Rhyl. Hyd yma, roedd 23 achos o adleoli wedi digwydd - 20 o fewn Y Rhyl a 3 o fewn Prestatyn.
- Hyd yma, nid oes unrhyw ddyluniadau wedi'u cymeradwyo i'r man gwyrdd. Mae'r Cyngor yn awyddus i gyfyngu ar y gost o gynnal a chadw'r man gwyrdd gyda'r posibiliad o greu menter gymunedol a fyddai'n cynnal y man hwn.
- Byddai adeiladau newydd ac adeiladau a adnewyddwyd yn dangos safon uchel iawn o effeithlonrwydd ynni.
- Mae risg ariannol posibl i'r cyngor yn nhrydedd flwyddyn y prosiect hwn. Prosiect Llywodraeth Cymru ydy hwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, felly mae cyfrifoldebau risg ariannol yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru ac nid Cyngor Sir Ddinbych.
- Mae Prosiect Gwella Tai Gorllewin Y Rhyl yn cael ei redeg fel Prosiect Methodoleg Prince 2. Roedd uwch swyddog wedi'i benodi a oedd yn Ymarferwr Prince 2 i weithredu fel Rheolwr Prosiect.
- Awgrymwyd gan Aelodau y dylai Archwilio Mewnol ymgysylltu â'r prosiect yn gynnar yn y broses. Byddai Rheolwr Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn edrych i mewn i hyn. Dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai'n cyfarfod gydag Archwilio Mewnol ymhen ychydig o wythnosau ac y byddai'n trafod y prosiect bryd hynny.
- Dywedodd Rheolwr Y Rhyl yn Symud Ymlaen bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddar, a bod y map sydd ynghlwm wrth y dogfennau wedi newid rhyw ychydig. Roedd y Gorchymyn Prynu Gorfodol bellach yn cynnwys Stryd Gronant ac adeiladau eraill, ond na fyddai hynny'n newid hyd a lled y prosiect mewn unrhyw fodd.
- Roedd Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ond gan fod yr Arweinydd wedi'i enwi ddwywaith ar y Bwrdd, roedd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir wedi cytuno y dylai'r Cynghorydd Hugh Irving ddod yn aelod o'r Bwrdd.
- Bydd nifer yr anheddau un llofft yn gostwng yn Y Rhyl.

Esboniodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (HHCD) ei bod yn bwysig i'r dyfodol adfywio'r strwythur cymdeithasol trwy weithio gyda chymunedau i'w cynorthwyo trwy gynnig iddyn nhw fwy o hyfforddiant a swyddi. Nid gwario'r arian ond yn hytrach sut oedd adnoddau yn cael eu defnyddio.

***Penderfynwyd** – bod y Cyngor yn cymeradwyo'r prosiect ac yn dirprwyo'r pwerau canlynol i'r Bwrdd Prosiect:-*

*(i)* *Darparu'r arweiniad a'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni'r prosiect sy'n canolbwyntio ar weithredu.*

*(ii)* *Goruchwylio'r gwaith o redeg a monitro'r prosiect i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n brydlon ac o fewn y gyllideb.*

*(iii)* *Dyrannu cyllid yn ôl yr angen i bob un o'r timau gwaith o fewn paramedrau'r gyllideb a ddirprwyir yn flynyddol o'r Gweinidog dros Dai, Adfywiad a Threftadaeth.*

*(iv) Monitro cofrestr risgiau'r prosiect.*

## 10 PWYLLGOR SAFONAU – TELERAU SWYDDI AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Cyngor gytuno ar drefniadau ar gyfer recriwtio aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Dywedodd bod Cyngor Tref y Rhyl wedi enwebu aelod ers cyhoeddi'r adroddiad fel aelod Cyngor Tref a Chymuned.

Mynegodd y Cynghorydd Win Mullen James ddiddordeb personol a rhagfarnol yn yr eitem hon gan mai ei gŵr hi oedd wedi'i enwebu gan Gyngor Tref y Rhyl. Gadawodd y Cynghorydd Mullen James y Siambr i'r eitem hon.

Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland y dylid ail-ethol y cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned presennol sef David Jones, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Raymond Bartley.

Cynigiodd y Cynghorydd Colin Hughes gynnig, sef yn hytrach nag ail-ethol David Jones, y dylid cael proses ddethol. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Gareth Sandilands. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, ond methodd y cynnig.

Gofynnwyd am enwebiadau am dri Chynghorydd Sir i wasanaethu ar Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau. Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn sefydlu Panel Penodiadau, a gwaith y panel hwnnw yw ystyried ceisiadau am unrhyw swyddi gwag i'r aelodau annibynnol (h.y. nad ydynt yn aelodau o'r cyngor) ac i gynnig argymhellion i'r Cyngor llawn. Bydd y Panel yn cynnwys dim mwy na 5 aelod Panel. Mae'n rhaid i un aelod Panel fod yn berson lleyg, un yn aelod o Gyngor Cymuned ac mae'n rhaid i hyd at dri fod yn Gynghorwyr Sir. Bydd y Panel yn ymgynnull yn achlysurol pan fydd swydd wag. Mae'r Cynghorwyr Colin Hughes a Bill Cowie yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cynghorydd David Simmons ac eiliodd y Cynghorydd David Smith y dylid penodi'r Cynghorwyr Colin Hughes a Bill Cowie i'r Panel.
Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Cynghorydd Martyn Holland fel y trydydd Cynghorydd Sir, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw Jones.

***Penderfynwyd**:-*

*(a) y dylid ail-benodi David Jones am dymor pellach yn y swydd*
*(b) y dylid ail-benodi Paula White am dymor terfynol o bedair blynedd.*
*(c) y dylid penodi'r Cynghorwyr Colin Hughes, Bill Cowie a Martyn Holland i wasanaethu ar Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau.*

## 11 BLAEN-RAGLEN WAITH Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaen-raglen Waith y Cyngor (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan adrodd y bydd Adolygiadau Gwasanaeth y GIG yn cael eu cynnwys yn Hydref 2012.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.25 y.p.**